## Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

Pwynt Craffu ar Rinweddau:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii)**

   a. **Pŵer Gweinidogion Cymru i benderfynu ar apelau o dan reoliad 31**

   O dan reoliad 31(5)(c) mae gan Weinidogion Cymru, wrth benderfynu ar apêl o dan y rheoliad hwnnw, y pŵer i gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") i estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan yr hysbysiad a ddyroddwyd gan CNC. O dan reoliad 30(6) mae dyletswydd ar CNC i ddilyn y cyfarwyddyd hwnnw. Pan fônt yn penderfynu a ddylid arfer eu pŵer i gyfarwyddo o dan reoliad 31(5)(c) ai peidio, bydd Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'w dyletswydd cyfraith gyhoeddus i weithredu'n rhesymol. Mae'r dull hwn, felly, yn darparu amddiffyniad digonol i apelyddion rhag gorfod gwneud gwaith/cymryd camau o fewn amserlen annigonol unwaith y bo canlyniad eu hapêl yn wybyddus. Gallai amgylchiadau godi hefyd pan fyddai cymryd camau ar unwaith yn ymarferol ac yn briodol, er enghraifft er mwyn atal methiant storio trychinebus rhag peryglu bywydau.